

## **Arsylwi mewn Llys a phrofiad o Gynorthwyo Troseddwyr yng Nghanolfan Cyfiawnder Aberystwyth – canllaw i fyfyrwyr**

Bu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Cyfiawnder Aberystwyth ers nifer o flynyddoedd i roi cyfle i fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth gael profiad o arsylwi yn y llys a chynorthwyo troseddwyr. Mae'r cyfle hwn ar hyn o bryd ar agor i fyfyrwyr ar unrhyw lefel yn yr adrannau Seicoleg, Y Gyfraith, ac Addysg.

Cyflwynwyd y cynllun am y tro cyntaf yn 2010, gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (HMCTS), o dan yr enw 'Menter Datrys Problemau'. Am y rheswm hwn rydych yn dal yn debygol o glywed y term 'Datrys Problemau' yn cael ei ddefnyddio er bod y cynllun wedi dod i ben mewn sawl ardal ers hynny. Rydym yn falch iawn ei fod wedi parhau yn Aberystwyth o dan y trefniadau presennol.

Cyfleoedd profiad gwaith di-dâl yw'r rhain.

### **Mwy am y gwaith**

Cynigir lle i rhwng 6 a 10 o fyfyrwyr ar y cynllun bob blwyddyn academaidd; maent yn mynd i'r llys mewn paru ar rota, ar ddydd Mercher pan gynhelir sesiynau ple a dedfrydu.

Trefnir y rota fel y gall pob myfyriwr fynd i'r llys o leiaf 3 gwaith, a mwy gobeithio – mae'r dyddiadau yn rhai yn ystod y tymor yn unig, ac mae'r dyddiad olaf ym mis Mai, yr wythnos cyn dechrau arholiadau tymor yr haf. Rhaid i fyfyrwyr bob amser fynd i'r llys fesul dau.

Bydd angen i fyfyrwyr ddangos ymrwymiad llwyr i'r cynllun yn ystod y broses o wneud cais. Hefyd, mae gallu i reoli eu hamser a chyfathrebu'n effeithiol â thîm y Gwasanaeth Gyrfaoedd a chyd-gyfranogwyr ar y cynllun yn hanfodol, er enghraifft, os nad oes modd mynd i'r llys yn ôl y rota a bod angen trefnu i gyfnewid tro. Yn aml, mae myfyrwyr yn creu grŵp Facebook neu WhatsApp er mwyn cadw mewn cysylltiad â'i gilydd, rhannu profiadau ac awgrymiadau, a gwneud trefniadau eraill ymhlith ei gilydd os oes angen canslo neu gyfnewid.

Dylai myfyrwyr gyrraedd y llys ar y diwrnod (au) penodedig am 9.00yb yn brydlon, a chynllunio i aros drwy'r dydd tan 5.00yp, er y gall sesiynau llys orffen cyn hynny.

Yn ystod sesiynau'r llys, bydd y myfyrwyr yn eistedd gyda staff y llys a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol, er enghraifft swyddogion prawf. Byddant yn gallu arsylwi ar arferion y llys, pob agwedd ar achosion llys, a gweld gwahanol weithwyr proffesiynol, gan gynnwys Cyfreithwyr, yn mynd ynglŷn â'u gwaith. Mae hyn yn rhoi cyfle gwych i rwydweithio a gwneud cysylltiadau da, a datblygu cyfleoedd ychwanegol.

Dylai myfyrwyr nodi, fodd bynnag, eu bod yn annibynnol ar y llys ac nad ydynt yn cymryd rhan mewn achosion cyfreithiol nac yng ngwaith ffurfiol y llys; dim ond os cânt eu cyfarwyddo i wneud hynny gan yr Ynad neu gan aelod arall o staff y llys y dylent ryngweithio â throseddwyr.

Lle bo'n briodol, bydd yr Ynad yn cyfeirio'r diffynnydd at fyfyrwyr er mwyn iddynt gynorthwyo'r diffynnydd i nodi pa gymorth mae ef/hi ei angen ac i roi gwybodaeth am wasanaethau lleol a all fod o gymorth iddynt. Mae'r gwaith 1:1 hwn yn digwydd ar ôl i'r diffynnydd adael y llys, cyn gadael y Ganolfan Gyfiawnder. Mae ffeil adnoddau sy'n cael ei diweddarau a'i defnyddio gan bob myfyriwr wrth fynd i'r llys yn cael ei chadw yn y llys.

Bydd angen i ymgeiswyr felly fod yn hyderus yn eu gallu i:

- mynd at ddiffynnyddion a meithrin perthynas yn gyflym
- cymhwyso sgiliau gwrando effeithiol
- ymdrin â sefyllfaoedd a gwybodaeth a allai fod yn heriol gyda sensitifrwydd a chyfrinachedd
- defnyddio sgiliau ymchwil a dyfeisgarwch i gael gwybodaeth am ddarpariaethau cymorth lleol
- cysylltu â chysylltiadau allweddol mewn sefydliadau cymorth lleol er budd diffynnyddion

Dylai myfyrwyr nodi na ellir gwarantu cyfleoedd i gefnogi troseddwr 1:1 yn y modd hwn bob tro. Mae'r math o ddiffynnydd a busnes y llys yn Aberystwyth wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf yn dilyn mentrau newydd yn y system cyfiawnder troseddol, ac o ganlyniad mae llai o gyfleoedd i ynadon gyfeirio diffynnyddion at y rhai sy'n 'datrys problemau'.

Fodd bynnag, efallai y bydd cyfleoedd ychwanegol i gefnogi troseddwr 1:1 yn y dderbynfa, cyn dechrau sesiwn y Llys, lle mae'n rhaid iddynt lenwi ffurflen 'Modd' wrth gyrraedd os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny. Mae hwn yn 'ddatganiad o asedau ac amgylchiadau ariannol eraill' ac mae ei hangen i ddangos i'r llys pa fodd sydd gan y diffynnydd i dalu unrhyw ddirwyon. Os nad oes gan y diffynnydd gynrychiolaeth gyda nhw, gall staff y llys alw ar un o'r ddau fyfyrwr sy'n bresennol i helpu'r troseddwr i lenwi'r ffurflen.

## **Trefn recriwtio ac ymuno â'r cynllun**

1. Anfonir e-bost at fyfyrwyr cymwys o [gyrfaoedd@aber.ac.uk](mailto:gyrfaoedd@aber.ac.uk) tua diwedd Medi/dechrau Hydref i roi gwybod bod y cyfnod ymgeisio wedi dechrau, ac i gadarnhau'r holl ddyddiadau perthnasol. Efallai y bydd eu hadran academaidd hefyd yn tynnu eu sylw at y cyfle hwn mewn negeseuon ar wahân.
2. Cynhelir sesiwn wybodaeth\* gan gynrychiolwyr Gwasanaeth Gyrfaoedd ar gampws Penglais, ymhell cyn dyddiad cau'r cais, i ateb unrhyw gwestiynau am y cynllun ac i roi cymorth wyneb yn wyneb wrth wneud cais. Gwahoddir myfyrwyr a fu ar y cynllun yn y gorffennol hefyd i'r sesiynau hyn.
3. Gwneir cais trwy gyflwyno CV a llythyr ategol i [gyrfaoedd@aber.ac.uk](mailto:gyrfaoedd@aber.ac.uk) erbyn y dyddiad cau\*.
4. Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i gyfweiliad 20 munud\* yng Nghanolfan Cyfiawnder Aberystwyth – mae'r panel cyfweld yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Gyrfaoedd ac Ynad.
5. Gofynnir i ymgeiswyr llwyddiannus fynd ar gwrs cynefino â'r cynllun sy'n para hanner diwrnod\* yng Nghanolfan Cyfiawnder Aberystwyth, a gynhelir fel arfer yr wythnos cyn y sesiwn llys gyntaf. Gwahoddir myfyrwyr a fu ar y cynllun yn y gorffennol a chynrychiolwyr o asiantaethau cymorth lleol i fod yn bresennol hefyd. Os oes gan y myfyriwr ymrwymadau academaidd ar yr un pryd bydd angen iddynt ofyn am ganiatâd i fod yn bresennol.

\* Bydd dyddiad, amser a lleoliad y gweithgareddau hyn wedi'u rhoi yn yr e-bost a anfonir o gyrfaoedd@aber.ac.uk (pwyt 1 uchod) ac maent hefyd ar gael ar borth ar-lein y Gwasanaeth Gyrfaoedd, sef [ABERcareers](http://ABERcareers).

Yn ystod y sesiwn gynefino, bydd y myfyrwyr a fydd yn cymryd rhan yn y cynllun yn cael eu dysgu am arferion a dulliau gweithredu'r llys ac yn cael taith o amgylch y llys. Hefyd, bydd y rota'n cael ei thrafod a'i chadarnhau. Bydd tasg grŵp yn cael ei gosod hefyd, er mwyn sicrhau bod y ffeil adnoddau'n gyfoes a bod pob un o'r myfyrwyr yn gallu cael mynediad at wybodaeth am y gwasanaethau cymorth lleol perthnasol sydd ar gael i ddiffynyddion.

## Awgrymiadau wrth wneud cais

Dewisir myfyrwyr i gymryd rhan yn y cyfle hwn trwy broses gystadleuol sy'n cynnwys llunio rhestr fer a chyfweliad. Mae galw mawr am y cyfleoedd hyn fel arfer felly mae'n hanfodol bod y cais o safon uchel.

### 1. Mynd i'r sesiwn wybodaeth

Cynghorir unrhyw fyfyrwr sy'n ystyried gwneud cais i'r cynllun neu sydd am wybod mwy i ddod i'r sesiwn hon. Lle bo'n bosibl, bydd myfyrwyr sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun o'r blaen yn bresennol ac yn ffynhonnell werthfawr o gyngor a gwybodaeth.

### 2. Gwnewch eich ymchwil

Meddyliwch sut beth fyddai gyrfa yn y drefn cyfiawnder troseddol – mae amrywiaeth enfawr o swyddogaethau ar gael yn y sector, o gyfreithwyr i swyddogion carchar, cydlynwyr addysg i gynghorwyr iechyd meddwl.

Edrychwch ar y tudalennau 'beth alla i ei wneud gyda fy ngradd?' ar wefan 'Prospects' a darllenwch yr wybodaeth pwnc-benodol ar wefan y Gwasanaeth Gyrfaoedd.

Mae sefydliadau fel Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn darparu cyfoeth o wybodaeth am yrfaedd, yn ogystal â gwasanaethau cymorth megis y Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

Trafodwch eich syniadau â'ch tiwtor, eich Ymgynghorydd Gyrfaoedd neu staff eraill yn y Gwasanaeth Gyrfaoedd (gallwch alw i mewn am gyngor, neu wneud apwyntiad).

***Argymhellir yn gryf hefyd eich bod yn ymweld â Chanolfan Cyfiawnder Aberystwyth ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos a gwyllo'r llys o'r ardal gyhoeddus; bydd hyn yn gymorth i gadarnhau eich diddordeb i weithio mewn amgylchedd o'r fath a bydd hefyd yn cefnogi unrhyw gais a wnewch i'r cynllun hwn a chyfleoedd cysylltiedig eraill. Gall sesiynau llys barhau tan ddiwedd y prynhawn ond mae'n well mynd yn y bore.***

### 3. Ystyriwch yr hyn mae'r detholwyr yn chwilio amdano a theilwra eich cais

Bydd y tîm sy'n gyfrifol am adolygu'r ceisiadau a'r rhestr fer ar gyfer cyfweliad yn awyddus i weld eich bod wedi gwneud eich ymchwil a bod gennych resymeg glir dros wneud cais am y cyfle penodol ac unigol hwn. Bydd angen i chi ddangos hefyd eich bod yn deall y swyddogaeth a'r sgiliau a'r priodoleddau sydd ei hangen ar ei chyfer, a'ch bod yn gallu rhoi tystiolaeth o sut a ble yr ydych wedi datblygu a defnyddio'r sgiliau perthnasol hyn hyd yma.

Byddant hefyd yn chwilio am ymrwymiad, brwdfrydedd a diddordeb gwirioneddol mewn gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â'ch astudiaethau gradd a'r maes gwaith hwn. Bydd pwysleisio eich rhesymau dros wneud cais a rhoi esboniad o'r ffordd y bydd y cyfle hwn yn gwneud cyfraniad at eich syniadau a'ch cynlluniau chi hefyd yn cryfhau eich cais.

#### **4. Cymerwch eich amser a chreu cais di-wall wedi'i deilwra**

I'ch helpu chi i ysgrifennu'r cais gorau posibl, darllenwch y taflenni defnyddiol a gynhyrchir gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd ar ysgrifennu CV a llythyr ategol. Fe'ch cynghorir yn gryf hefyd i ofyn i'r Gwasanaeth Gyrfaoedd am gymorth a chefnogaeth gyda'ch cais, er mwyn sicrhau ei fod cystal ag y gall fod. Mae hyn yn arbennig o bwysig os na lwyddoch i fynd i'r sesiwn wybodaeth.

Gallwch alw heibio i'r Gwasanaeth Gyrfaoedd, adeilad Undeb y Myfyrwyr, Penglais, i gael cymorth gyda drafft eich cais ar y dyddiau/amseroedd canlynol:

- Llun-lau: 10.30yb-1.00yp & 2.00-4.30yp
- Dydd Gwener: 10.30yb-1.00yp & 2.00-4.00yp

Neu gallwch gwrdd â'ch Ymgynghorydd Gyrfaoedd yn un o'r sesiynau galw heibio yn eich adran academaidd. Ffoniwch 01970 622378 os nad ydych yn sicr pryd y cynhelir y rhain.

#### ***Hefyd, dilynwch y cyngor isod:***

- Cyfeiriwch eich llythyr ategol i: Canolfan Cyfiawnder Aberystwyth, d/o Gwasanaeth Gyrfaoedd Prifysgol Aberystwyth, Campws Penglais, Aberystwyth SY23 3DX. Defnyddiwch 'Annwyl Syr/Madam' ac 'Yr eiddoch yn gywir'.
- Byddwch yn gryno! Yn ddefnyddiol, dylai eich llythyr eglurhaol fod yn 1 dudalen A4 o hyd, ond yn sicr dim mwy na 2; ni ddylai eich CV fod yn fwy na 2 dudalen A4 o hyd.
- Cofiwch gynnwys y cwrs rydych chi'n ei astudio a'r flwyddyn rydych chi ynddi ar hyn o bryd yn adran addysg eich CV, h.y. gwnewch yn sicr bod y CV yn gwbl gyfoes.
- Crëwch ac anfonwch eich cais fel .doc (Microsoft Word), nid .pdf na fformat arall.
- Rhodwch enw i'ch dogfen(nau) sy'n dangos mai eich cais chi ydyw wrth ei gadw mewn ffolder o geisiadau, er enghraifft, 'Smith, Alex CV' a 'Smith, Alex Llythyr', h.y. Peidiwch â'i alw'n 'CV'. Mae croeso i chi gyflwyno'r llythyr ategol a'r CV fel un ddogfen, neu ddogfennau ar wahân.

#### **5. Gwiriwch eich cais cyn cyflwyno**

Gwiriwch ac ailwiriwch y fformat, y sillafu a'r ramadeg. Gwnewch yn sicr nad oes unrhyw gamgymeriadau nac unrhyw beth wedi ei adael allan, ac nad yw toriadau tudalen yn torri brawddegau neu adrannau.

Gall defnyddio lliw, arlliwiau a gwahanol ymylon edrych yn wych ar y sgrin, ond gwnewch yn sicr nad oes unrhyw wybodaeth yn cael ei cholli pan gaiff y ddogfen ei hargraffu mewn du a gwyn.

Unwaith eto, byddai'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn hapus i wneud gwiriad terfynol o'ch cais cyn ei gyflwyno.

Diolch am ddarllen.